Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Cyflwr y Sector 2021

## Strategaeth ar gyfer cymorth cynaliadwy

# Cynnwys


1 Cyflwyniad

2 Cymorth i oroeswyr

6 Pam nawr? Yr achos dros gyllid cynaliadwy, tystiolaeth a chyd-destun

8 Gwerthfawrogi'r sector arbenigol

11 O ble y daw'r cyllid?

14 Camau gweithredu ar unwaith



# Cyflwyniad

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn effeithio ar gyllidebau ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, addysg, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymunedol a'r economi gyfan. Mae adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddluoedd a'r system cyfiawnder troseddol i gyd yn gwario arian sylweddol ar effeithiau VAWDASV.

Byddai model ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn golygu bod cyfran o gyllidebau o bob rhan o asiantaethau perthnasol yn cydgysylltu i gyflawni dyletswyddau ataliol a gweithio tuag at ddileu VAWDASV yng Nghymru. Dros amser, byddai'r adnoddau sydd eu hangen i ymateb i effeithiau negyddol hirdymor VAWDASV yn cael eu lleihau'n sylweddol.

Mae llawer wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Sefydlodd Cymru Senedd newydd, rydym yn dal i ymateb i'r sefyllfa sy'n datblygu o ran COVID-19, ac mae Llywodraeth Cymru ar fin cynhyrchu strategaeth VAWDAV genedlaethol newydd. Mewn cyd-destun ehangach, trosglwyddwyd Bil Cam-drin Domestig y DU i Ddeddf ac ymgynghorir ar ganllawiau statudol ar hyn o bryd.[1] Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei strategaeth genedlaethol VAWG yn ddiweddar hefyd.[2]

Drwy gydol y cyfnod hwn o newid, mae goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol wedi bod angen diogelwch a chymorth o hyd, a thrwy gydol y cyfnod hwn o newid mae gwasanaethau arbenigol wedi bod yn gweithio y tu hwnt i'w capasiti i sicrhau bod cymorth ar gael. Mae un peth yn aros yr un fath – yr ansicrwydd a deimlir ar draws y sector ynghylch a ellir parhau i ddarparu'r lefel hon o gymorth gyda’r adnoddau sydd ar gael.

1 https://www.gov.uk/government/consultations/domestic-abuse-act-statutory-guidance
2 https://www.gov.uk/government/publications/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy

Yn 2020, cyhoeddwyd ein hadroddiad, Cyflwr y Sector: Amser i Weithredu ar Gynaliadwyedd,[3] a gyfeiriodd at 'pam a sut' cael model ariannu cynaliadwy ar gyfer y sector. Gydag adolygiad o wariant nesaf y DU ar y gweill, mae cyllideb nesaf Llywodraeth Cymru yn cael ei drafftio ac mae gweithredu strategaeth VAWDASV genedlaethol newydd ar y gorwel, dyma'r amser iawn i ystyried diogelwch a chefnogaeth hirdymor goroeswyr yng Nghymru ac ymrwymo i fodel ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu cymorth VAWDASV arbenigol.

Mae modd gweld sut olwg y dylai fod ar fodel ariannu cynaliadwy a sut y gellir ei gyflawni yn ein hadroddiad ar Cyflwr y Sector 2020 sydd ar gael yma.

# Cymorth i oroeswyr

Mae anghenion cymorth, cefndir a mynediad cyfredol yn wahanol ar gyfer pob goroeswr unigol. Dylai'r cymorth a gynigir adlewyrchu hyn. Mae VAWDASV yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhywiol, sy'n croestorri â ffactorau megis hil, ethnigrwydd, oed, dosbarth, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd, i effeithio ar brofiadau o gamdriniaeth a llwybrau at adferiad.[4]

Cydnabyddir yn eang ymhlith arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol y gellir atal pob math o VAWDASV. I fynd i'r afael â normau, arferion a strwythurau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb rhywiol sy'n cyfreithlonni neu'n caniatáu VAWDASV, mae angen ymateb strategol aml-lefel – un sy'n cydnabod bod croestoriad o ffactorau ar lefel gymdeithasol, gymunedol, berthynas ac unigol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o VAWDASV.[5]

Model ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol yw'r sylfaen ar gyfer dileu pob math o VAWDASV. Byddai ariannu gwasanaethau i weithredu’n gynaliadwy nid yn unig yn galluogi sector arbenigol VAWDASV i gefnogi menywod a phlant ar unwaith ac i fyw gyda thrawma hirdymor, ond byddai hefyd yn galluogi'r sector i gydweithio â chymunedau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol, systemig VAWDASV. Gellir cyflawni hyn drwy gyflwyno a gwreiddio polisïau ac arferion effeithiol i’w atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Cydgysylltu polisi, ymarfer a chyllid yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau newid gwirioneddol sy'n para.

3 https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/CYM_State-of-the-sector-2020-PDFdesign-1.pdf
4 https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Annual-Membership-Report-2018-19-FINAL.pdf
5 https://www.humanconsultancy.com/assets/understanding-perpetration/bin/Review%20of%20Research.pdf

# Conglfeini model cyllido cynaliadwy

Fel yr amlygwyd yn adroddiad 2020, mae'n rhaid i'r conglfeini hyn gynnwys:

- Ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar [6]
- Cyllid cynaliadwy sy'n cefnogi plant a phobl ifanc [7]
- Pwysoliad cyfartal i wasanaethau Trais Rhywiol
- Ymrwymiad parhaus i lochesi a chymorth mewn llety
- Cynnydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau 'Gan ac Ar Gyfer'
- Ateb Cymreig i gefnogi goroeswyr sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus
- Cydnabod bod yn rhaid cynnwys camfanteisio'n rhywiol o fewn fframwaith dileu VAWDASV
- Ymyriadau achrededig ar gyfer drwgweithredwyr, gan gynnwys ymyrraeth gynnar

Byddai model cyllido cynaliadwy yn rhoi cyfle i wasanaethau arbenigol weithredu'n hyblyg a diwallu anghenion pob goroeswr sy'n ceisio cymorth.

6 https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/CYMRAEG-Prevention-Blueprint-for-VAWDASV.pdf
7 https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Children-and-Young-People-participation-report-FINAL.pdf

# Beth mae goroeswyr yn ei ddweud?

Mae rhwydwaith goroeswyr Cymorth i Ferched Cymru yn llywio ein gwaith yn rheolaidd. Ar draws prosiectau, cynadleddau a chyfweliadau yn y cyfryngau mae themâu cynaliadwyedd a hyfforddiant a sut mae hyn yn effeithio ar y cymorth a dderbynnir gan oroeswyr. Dyma grynodeb o'r adborth a gafwyd gan oroeswyr dros y flwyddyn ddiwethaf:

## Mynediad at gymorth:

Dwysawyd yr anawsterau a fodolai cyn y pandemig o ran cael mynediad at gymorth. Yn ystod y pandemig, teimlai goroeswyr yn fwy ynysig ac wedi'u datgysylltu oherwydd bod mecanweithiau cymorth cyfyngedig ar waith i gael mynediad at wasanaethau. Nododd goroeswyr bod y cyfnod hwn yn arbennig o anodd i fod yn berson ag anabledd neu mewn grŵp ymylol wrth i'r ddarpariaeth a oedd eisoes yn gyfyngedig ar eu cyfer ddod yn fwyfwy amlwg wrth gael mynediad at wasanaethau yn ystod y pandemig.Cynyddodd materion fel rhwystrau iaith oherwydd tlodi digidol a diffyg cyfathrebu effeithiol.

> Allwn i ddim ffonio gwasanaethau, ffrindiau neu deuluoedd ac yn sicr allwn i ddim cymryd y risg o gael gafael ar unrhyw help gan fod popeth yn cael ei fonitro. Roedd bod yn fyddar yn achosi'i broblemau ei hun ond dwi'n ymwybodol fyddai cael gafael ar wasanaethau ddim wedi gallu ateb fy anghenion i petawn i wedi llwyddo gwneud galwad, fyddwn i ddim wedi gallu clywed yr ymateb.

## Addasu yn ystod y pandemig:

Parhaodd gwasanaethau arbenigol, llochesi a llinellau cymorth i ddarparu cymorth rhagorol drwy gydol y pandemig, ond golygai cyfyngiadau COVID-19, megis rheolau ynghylch hunanynysu, fod ganddynt niferoedd isel o staff. Roedd gwasanaethau o dan bwysau aruthrol i gynnig darpariaeth gyda phrinder mor fawr o ran staff. Parhaodd y gwasanaethau i gynnal dulliau cadarnhaol, ond mae'n anochel bod cyfyngiadau wedi effeithio ar faint y gellid ei gynnig yn ystod rhai adegau o'r pandemig.

Roedd y diffyg cefnogaeth i blant a phobl ifanc yn ystod y pandemig yn sylweddol. Wrth i brosesau addysg ac ysgolion gael eu gorfodi i addasu, torrwyd ar draws y broses o gael gwybodaeth i bobl ifanc mewn ysgolion, ac nid oedd gwasanaethau’n gallu cyrraedd llawer o blant a phobl ifanc drwy ddulliau digidol i ddarparu cymorth arbenigol. Mae pobl ifanc wedi awgrymu iddynt deimlo’u bod wedi cael eu gadael.

# Tlodi Digidol:

Mae'r rhyngrwyd yn foethusrwydd y mae rhai goroeswyr wedi dweud na allent ei fforddio mwyach, ar ôl colli swyddi neu gael eu rhoi ar ffyrlo. Golygai diffyg cysylltiad â'r rhyngrwyd fod llawer o oroeswyr mewn sefyllfa eithriadol o fod heb systemau cymorth na mynediad at gymorth. Dywedodd rhai goroeswyr fod y rhyngrwyd yn cael ei fonitro gan deulu a drwgweithredwyr, gan nodi pan nad oeddent mewn cyfnod clo y gallent o leiaf fynd draw i siopau coffi a chael cyngor yno.

# Cyllid cyfyngedig ar gyfer gwasanaethau:

Er bod goroeswyr yn gwybod bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddarparu cyllid brys, dywedasant hefyd eu bod yn ymwybodol o dorri gwasanaethau neu wasanaethau wedi colli cyllid. Nododd goroeswyr effaith ganlyniadol cyllid cyfyngedig gan greu ôl-groniadau o bobl sydd angen cymorth. Mae colli arian o fewn gwasanaethau critigol yn rhoi pwysau ar y system gyfan sydd wedi'i chynllunio i amddiffyn pawb pan fyddant fwyaf agored i niwed. Mae rhestrau aros hir yn caniatáu amser i ddrwgweithredwyr fanipwleiddio ac aflonyddu ar ddioddefwyr, gall canlyniadau hyn fod yn eithafol gan gynnwys goroeswyr yn tynnu eu cwynion yn ôl neu'n ailddechrau eu perthynas â drwgweithredwr oherwydd ofn neu'r syniad y byddai’n haws gwneud hynny.



# Pam nawr? Yr achos dros gylliad cynaliadwy, tystiolaeth a chyd-destun

Mae ein data aelodaeth blynyddol, 2020-21, yn dangos:

- Cynnydd o 22% yn nifer y goroeswyr na ellid eu cefnogi gan lochesi oherwydd diffyg capasiti neu adnoddau, o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.
- Cefnogwyd 283 o blant gan wasanaethau o fewn llochesi, sy'n dangos nifer uchel barhaus o blant mewn lloches yn ystod y pandemig gyda mynediad cyfyngedig at weithwyr cymorth plant arbenigol.
- Cynnydd o 23% mewn atgyfeiriadau i wasanaethau o fewn y gymuned o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol a chynnydd o 12% yn y nifer o oroeswyr na allai dderbyn cymorth gan wasanaethau o fewn y gymuned oherwydd problemau'n ymwneud ag adnoddau a chapasiti.


Roeddem yn falch bod ein harolygon aelodaeth yn dangos bod y mwyafrif o wasanaethau'n teimlo'n hyderus bod ganddynt adnoddau i ddarparu eu lefel bresennol o wasanaethau eleni. Fodd bynnag, yr adborth cyson a gawn o'n cyfarfodydd aelodaeth rheolaidd yw bod y cyllid a ddarperir yn cwmpasu’n unig y dyletswyddau hynny sy'n bodoli eisoes ac nad yw'n gadael unrhyw arian yn weddill ar gyfer argyfyngau, cynnydd annisgwyl mewn capasiti neu’r angen i fod yn hyblyg wrth gynnig cymorth.

Fel y nodwyd uchod, nid yw'r amgylchiadau ariannu cyfredol yn bodloni'r lefel bresennol o angen. Mae ein data blynyddol yn dangos bod cynnydd yn nifer y goroeswyr na ellid eu cefnogi ar draws gwasanaethau, oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau.Wrth archwilio'r adnoddau presennol, nid oes gan wasanaethau arbenigol yr adnoddau i gefnogi'r cynnydd mewn goroeswyr ag anfanteision lluosog sy'n ceisio cymorth.

Bu cynnydd sylweddol yn y rhesymau canlynol dros wrthod lloches dros y flwyddyn ariannol flaenorol:




Methu â diwallu anghenion cymorth (yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol)




Methu â diwallu anghenion cymorth (yn ymwneud ag iechyd meddwl)




Anniogel (mae drwgweithredwyr yn gwybod lleoliad y goroeswr/lloches)




Dim hawl/ hawl cyfyngedig i gael arian cyhoeddus

Ni allai cyfanswm o 692 o **oroeswyr gael eu cefnogi mewn lloches oherwydd capasiti** ac roedd 312 o **oroeswyr yn parhau i fod ar restrau aros ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol** ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020-21. Nid yw aelodau'n teimlo y gallant ehangu gwaith ataliol ar hyn o bryd, na chynyddu capasiti er mwyn rhoi cymorth i fwy o oroeswyr.

Mae pandemig COVID-19 eisoes wedi arwain at gynnydd mewn cysylltiadau gan oroeswyr (22%) ac eraill sy’n poeni amdanynt (43%) â'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn ystod 2020-21. Mae effaith cyfyngiadau COVID-19 ar brofiadau goroeswyr o gam-drin a thrais yn debygol o arwain at fwy o anghenion cymorth hirdymor, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Disgwylir i anghenion iechyd meddwl gynyddu wrth i effaith hirdymor COVID-19 a’r cynnydd mewn llymder effeithio ar iechyd a lles pobl; mae'n debygol mai cynyddu dros amser a wnaiff y galw am ddarpariaeth.

Pe bai digwyddiad annisgwyl arall fel pandemig COVID-19 yn digwydd, yna ni fyddai gan wasanaethau'r modd i hwyluso'r hyblygrwydd i addasu gwasanaethau a diwallu anghenion cynyddol, heb beryglu ansawdd ac achosi lludded i staff.

# Gwerthfawrogi’r sector arbenigol

Mae staff arbenigol VAWDASV wedi ymrwymo'n eithriadol i ddileu VAWDASV, ac mae'n bwysig cydnabod yr effaith gorfforol ac emosiynol y mae'r rôl yn ei chael ar unigolion yn y sector. Mae staff sy'n cefnogi oedolion a phlant sy'n goroesi VAWDASV wedi sicrhau bod gwasanaethau hanfodol achub bywyd a gwasanaethau sy'n cefnogi bywyd yn parhau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, yr her barhaus i'r sector yw bod sefydliadau'n cael eu llesteirio gan gyflogau cymharol is, cytundebau tymor byr a swyddi sy’n delio ag achosion niferus yn ogystal â gwaith y tu allan i oriau arferol. Mae llawer o sefydliadau yn y sector wedi gorfod rheoli'r amodau hyn ynghyd â'r gofynion ychwanegol a grëwyd gan y pandemig megis: yr angen i staff ynysu, staff yn sâl ac yn addysgu’u plant gartref. Mae anawsterau o ran recriwtio a chadw staff wedi effeithio ar y sector ac wedi cynyddu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd ar adeg pan fod ei angen fwyaf ar bobl.

Mae cadw staff yn fater hynod berthnasol sy'n wynebu gwasanaethau arbenigol ar hyn o bryd. Er enghraifft, gall ein haelodau dalu £20,541 ar hyn o bryd am rôl

gweithiwr cymorth, tra bod cymdeithasau tai lleol yn talu rhwng £24,000 a £26,000 am rolau tebyg. Hyd yn oed ar gyfer rolau cyfatebol, mae gwasanaethau arbenigol yn derbyn cyllid sylweddol is ar gyfer cyflogau. Er enghraifft, mae gan gynghorydd annibynnol ar drais rhywiol (ISVA) mewn canolfan argyfwng trais gyflog o £27,444 ond mae'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) sy'n cael ei rhedeg gan y sector statudol yn cynnig cyflog o £35,000 o fewn yr un ardal.

Mae'r anghydraddoldeb hwn yn arbennig o amlwg mewn rolau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc lle mae rôl gyfartalog mewn awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phlant yn talu 9.1% yn uwch na'r rhai yn y sector VAWDASV sy'n gofyn am arbenigedd a sgiliau ychwanegol. Mae'r sector arbenigol yn gweithio o fewn cyllidebau tynn ac mae ganddo lai o hyblygrwydd na sefydliadau/sectorau eraill i godi cyflogau i ddenu staff priodol pan fo angen.

Mae heriau eraill yn cynnwys:

- Pobl nad ydynt am newid swyddi yn ystod ansicrwydd Covid-19
- Staff yn teimlo efallai eu bod yn cael eu tanbrisio gan weld cyflogau uwch y tu allan i'r trydydd sector
- Costau hyfforddi a chymorth ychwanegol sy'n golygu bod gwasanaethau mewn perygl ariannol
- Capasiti'n cael ei gymryd oddi wrth ddarparu gwasanaethau i hyfforddi staff newydd
- Creu rolau sy'n ymwneud â gofynion cyllido penodol a bennir gan gyrff y llywodraeth, yn hytrach na diwallu anghenion goroeswyr.

Mae gan drosiant staff, salwch ac anawsterau recriwtio gost ariannol ac emosiynol. Mae darparu gwasanaeth sydd wedi'i lywio gan drawma a'i arwain gan anghenion yn golygu sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd i oroeswyr, yn enwedig plant a phobl ifanc.

> Mae cadw'r un aelod o staff yn hanfodol o ran meithrin perthynas gyda phobl ifanc ac ysgolion
>
> – Gwasanaeth Arbenigol

Wrth wraidd cyflawni'r gwaith hwn a chyflawni'r nod yn y pen draw o ddileu VAWDASV yng Nghymru mae arbenigedd gwasanaethau arbenigol a goroeswyr. Heb ffocws clir ac ymroddedig ar atal ac adnoddau digonol sy'n caniatáu i wasanaethau a goroeswyr ymgysylltu'n briodol, nid oes fawr o obaith o wella'r sefyllfa bresennol.

# Beth mae gwasanaethau arbenigol yn ei ddweud?

As part of our annual membership survey, we asked services to comment on the sustainability of their services under the current funding situation.

**Mae gwasanaethau ac arbenigedd mewn perygl o gael eu colli,** yn arbennig i blant a hobl ifanc, lle mae diffyg ymrwymiad ariannu parhaus a loteri cod post dros flynyddoedd wedi creu prinder darpariaeth.

Os na fyddwn ni'n cael cyllid hirdymor, byddwn ni'n colli'n holl weithwyr plant.

**Mae'r ansefydlogrwydd o ran cyllid yn golygu bod recriwtio a chadw staff yn anodd,** sy'n creu 'draen dawn' o'r sector ac yn bygwth y cymorth a roddir i oroeswyr.

Rydyn ni'n parhau i fod ar felin draed yn chwilio am barhad i'r cyllid ar gyfer prosiectau hanfodol sydd gyda'i gilydd yn rhoi cymorth uniongyrchol i 100 o unigolion (menywod a phlant) y flwyddyn.

Pan mae staff yn symud ymlaen mae wedi bod i rolau parhaol.

**Mae gwasanaethau arbenigol wedi gweithredu mentrau lles** megis oriau lles, gan gynnig mwy o gymorth clinigol, ac adnoddau. Hyd yn oed pan fo'r cyllid yn gyfyngedig, mae gwasanaethau arbenigol wedi dod o hyd i ffyrdd arloesol o gadw morâl staff yn uchel. Fodd bynnag, pan fo'r capasiti'n gyfyngedig oherwydd cyllid tymor byr, a straen rhestrau aros, galw am wasanaethau ac achosion cynyddol, mae angen newid brys i gydbwyso boddhad staff, capasiti a chyflog.

> I fi, dyw e ddim yn ymwneud â chyflogau'n unig, mae'n llawer mwy na hynny, mae'r lle, y lleoliad, y diwylliant yn bethau enfawr, sut rydych chi'n gofalu am eich staff, sut rydych chi'n gwobrwyo nhw.

# O ble y daw'r cyllid?

Ar hyn o bryd, ariennir gwasanaethau cymorth arbenigol VAWDASV drwy glytwaith o gomisiynu a grantiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â photiau cyllido elusennol - a chanddynt gytundebau byr yn aml. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid grant i bob awdurdod lleol i fuddsoddi yn VAWDASV, fodd bynnag, mae'r grant hwn yn cynrychioli rhan fach iawn o'r adnoddau cyffredinol a gaiff eu buddsoddi ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector statudol ehangach. Mae gwahanol lefelau a phrosesau ariannu'n parhau o hyd yn ôl gwahanol awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Nid yw meysydd sylweddol y llywodraeth — polisi economaidd, iechyd, addysg, cyflogadwyedd, tlodi, mynd i'r afael â thrais difrifol, er enghraifft — wedi dangos llawer o ymrwymiad i fuddsoddi mewn atal neu ymateb i VAWDASV hyd yma. Mae eraill fel tai, gwasanaethau cymdeithasol, plant a chymunedau yn buddsoddi mewn ymatebion sy'n berthnasol i VAWDASV ond nid ydynt yn ymuno â'r dull strategol o ymdrin â VAWDASV, gan greu perygl y bydd ymatebion aneffeithiol yn cael eu hariannu, dyblygu a dulliau ynysig.

Gwnawn ddadleuon tebyg ar gyfer cynaliadwyedd cyllid o flwyddyn i flwyddyn. Y prif faterion sy'n parhau yw:

# Diolgelwch i oroeswyr.

·Prif nod holl wasanaethau arbenigol VAWDASV yw bod yno i gynnig diogelwch a chefnogaeth i oroeswyr. Mae arolygon aelodaeth yn dangos yn gyson nad yw llawer o wasanaethau'n siŵr sut y byddant yn gweithredu'r flwyddyn ganlynol, a hynny oherwydd amgylchiadau ariannol. Mae goroeswyr yn haeddu gwybod bod y gefnogaeth iddynt yn gyson ac y bydd yno ar eu cyfer bob amser os bydd ei angen arnynt.

# Cadw staff.

Mae dros 50% o'n haelodau wedi dweud wrthym (yn ystod y 3 mis diwethaf) fod recriwtio yn parhau i fod yn bryder. Mae cyllid ansicr yn golygu cynnydd mewn cytundebau tymor byr, gan ei gwneud yn anos i wasanaethau recriwtio a chadw eu gweithlu. Mae angen staff sydd â sgiliau arbenigol ar wasanaethau arbenigol, sy'n golygu bod llawer o amser ac adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn hyfforddiant a chymorth. Nid yw gorfod ailhyfforddi nifer o ddechreuwyr newydd oherwydd anawsterau o ran cadw'r gweithlu yn gynaliadwy.

# Tendro cystadleuol.

Golyga’r prosesau tendro presennol fod gwasanaethau arbenigol yn cystadlu â’i gilydd yn hytrach na’n cydgysylltu. Mae aelodau'n adrodd yn gyson am y dymuniad i rannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau, ac er bod hyn yn digwydd mae'n rhaid i wasanaethau hefyd ystyried sut y byddant yn goroesi i barhau â’r gwaith hanfodol o gefnogi goroeswyr a staff pan ddaw’r amser i dendro am gytundebau.

# Loteri cod post.

Nid yw gwasanaethau'n cael eu hariannu'n gyson ar draws Awdurdodau Lleol ac mae'r diffyg barn gyffredinol am sut y caiff y sector arbenigol ei gyllido yn ei gwneud yn anodd nodi bylchau yn y ddarpariaeth a meddwl yn strategol am ddileu VAWDASV yn ei gyfanrwydd. Nod craidd Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 oedd dileu’r loteri cod post wrth atal, amddiffyn a chefnogi VAWDASV, mae’r ffaith bod hyn parhau bron i 7 mlynedd yn ddiweddarach yn amlygu angen sylweddol i flaenoriaethu arweinyddiaeth strategol wrth weithredu'r Ddeddf.

# Delio ag argyfyngau a'r capasiti i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae cylchoedd cyllido byr yn caniatáu yn unig i wasanaethau ganolbwyntio ar yr argyfwng sydd o'u blaenau, ac nid yw'n gadael fawr o le ar gyfer cynllunio strategol, atal na gwaith ehangach a fyddai o fudd i brofiadau goroeswyr ac a fyddai’n galluogi rhyddid hirdymor rhag camdriniaeth.

# Gweithgareddau cyfyngedig a biwrocratiaeth.

Mae cyllid sy'n dod o amrywiaeth o ffynonellau heb ei gydgysylltu yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau neilltuo llawer o amser ac adnoddau i’r gwaith o ysgrifennu ceisiadau ac adrodd i fframweithiau canlyniadau lluosog. Mae'r gwahanol botiau hyn hefyd ar gyfer gweithgareddau penodol yn aml a chyfyngant ar feddwl strategol ehangach.



# Camau gweithredu ar unwaith

Datblygwyd rhestr gennym o gamau strategol ar gyfer darparu cyllid cynaliadwy ar gyfer VAWDASV y mae angen i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth greu ei chyllideb a chyflawni ei strategaeth VAWDASV genedlaethol newydd yn 2022.

- Ymrwymiad cryf gan Lywodraeth Cymru i barhau i ddatblygu a gweithredu model cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector VAWDASV arbenigol o fewn y strategaeth VAWDASV genedlaethol sydd ar y gweill.

- Dull traws-lywodraethol o gyllidebu ar gyfer VAWDASV i sicrhau bod y buddsoddiad yn seiliedig ar nifer yr achosion o VAWDASV mewn poblogaethau a'r dystiolaeth am gostau cymdeithasol, ariannol ac amgylcheddol VAWDASV ar draws portffolios iechyd, tai, addysg, gofal cymdeithasol, yr economi a chyflogaeth.

- Creu mecanwaith cenedlaethol i oruchwylio'r ddarpariaeth gyllido ar lefel genedlaethol a lleol. Monitro a dal cyrff i gyfrif am y buddsoddiad digonol yn ddaearyddol ac ar draws mathau o VAWDASV yn seiliedig ar asesu anghenion effeithiol.

- Dyletswyddau a disgwyliadau clir ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd, a chydweithio â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, yng nghynllun cyflawni strategaeth VAWDASV genedlaethol i fuddsoddi mewn darpariaeth gwasanaethau arbenigol.

# Camau gweithredu ar unwaith

- Egluro pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am gomisiynu'r ystod lawn o wasanaethau i ddiwallu'r gwahanol anghenion, a sicrhau bod gan bob rhanbarth fecanweithiau ar waith i ddarparu a chydlynu comisiynu cydweithredol strategol ar gyfer VAWDASV.
- Comisiynwyr i gytuno ar gytundebau am o leiaf 3-5 mlynedd a sicrhau bod cytundebau’n cynnig cyflog byw, er mwyn galluogi gwasanaethau i recriwtio a chadw staff penodedig, cymwys.
- Awdurdodau perthnasol i sicrhau y glynir wrth y canllawiau comisiynu statudol a bod strategaeth gomisiynu ranbarthol yn cael ei llunio mewn ymgynghoriad â gwasanaethau arbenigol a goroeswyr.
- Lle i wasanaethau arbenigol VAWDASV a goroeswyr gyfranogi mewn prosesau comisiynu lleol neu ranbarthol i lywio strategaethau comisiynu cydweithredol rhanbarthol a'r dadansoddiad o anghenion o ran iechyd a lles, plant a phobl ifanc, a thai.
- Sicrhau buddsoddiad digonol a chynaliadwy mewn cymorth i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gweithio gyda phlant a phobl ifanc y mae VAWDASV yn effeithio arnynt yn cyd-fynd â gwaith Profiadau Niweidiol yn stod Plentyndod (ACEs) a phlant yn y system ofal; rhaid cydgysylltu’r buddsoddiad.

Dyma ein 5ed adroddiad blynyddol ar Gyflwr y Sector. Rydym wedi'n digalonni yn y myfyrdod, ein bod bob blwyddyn wedi codi amrywiadau o'r pwyntiau a amlinellir yn y ddogfen hon ac eto nid yw'r camau uchod wedi'u gweithredu'n llwyddiannus hyd yma. Bellach, mae'r pandemig wedi amlygu’r diffyg cynaliadwyedd yn y sector ac mae wedi effeithio ar y cymorth sydd ar gael i fenywod, plant a dynion. Erfyniwn ar Lywodraeth Cymru i adolygu a gweithredu'r bennod ar gamau gweithredu yn yr adroddiad ar Cyflwr y Sector 2020, gan wireddu cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol.



# Ni allwn barhau i wrthod mynediad at gymorth i oroeswyr.

Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org.uk

Rhif elusen cyfrestredig: 1140962

Dilynwch ni:
@welshwomensaid

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First